COMISIYNYDD
HEDDLU A THROSEDDU
DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME
COMMISSIONER

TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

Diben: Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLl 265

Amseru:

Teitl: Arian tuag at Ymchwilydd Ariannol, Swyddog Diogelu a Swyddog Brysbennu Twyll

Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Cyllid

Crynodeb Gweithredol:
Yn y gorffennol, mae'r CHTh wedi cyfrannu at gostau cyflog swydd Ymchwilydd Ariannol, swydd Swyddog Diogelu a swydd Swyddog Brysbennu Twyll, sydd wedi'u lleoli o fewn y tîm Troseddau Ariannol yn Heddlu Dyfed-Powys. Bu'r cyfraniadau hyn yn llwyddiannus iawn, ac mae'r tîm wedi llwyddo i ganolbwyntio'n benodol ar ddioddefwyr troseddau economaidd yn yr adran, gan ddarparu cyngor arbenigol. Hoffai'r CHTh barhau â'r cyfraniadau yn 22/23, a chynigir y canlynol:

Ymchwilydd Ariannol - £27,000 (swydd wedi'i hariannu 100%)
Swyddog Diogelu - £20,000 (swydd wedi'i hariannu 50%)
Swyddog Brysbennu Twyll - £21,000 (swydd wedi'i hariannu 50%)

Bydd cynnydd gan bob un o'r swyddi'n cael ei fonitro drwy gyfarfodydd chwarterol gyda'r Adran Troseddau Ariannol, gan adolygu ystadegau mewn perthynas â dioddefwyr a gefnogir ac incwm Deddf Elw Troseddau a gyflawnir. Bydd y wybodaeth yn cael ei rhoi i'r Bwrdd Ymgynghorol Comisiynu er mwyn iddynt graffu arni. Argymhellir i'r arian ddod o gyllideb y Ddeddf Elw Troseddau.

Argymhelliad:

Cytuno i roi arian o'r gronfa wrth gefn Deddf Elw Troseddau i'r Tîm Troseddau Ariannol.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

Llofnod: Dafydd Llywelyn **Dyddiad: 28/06/2022**